Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Data ar Aelodau Cyfredol y Senedd

16 Awst 2023

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 4 Awst 2023, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

> *I am writing to you today to request an Excel spreadsheet of all current members of the Senedd that includes this specific data:*
>
> *- First Name*
> *- Last Name*
> *- Constituency*
> *- Party*
> *- Email Address*

Gweler yr ymateb isod.

Mae'r wybodaeth y gwnaethoch ofyn amdani mewn perthynas â phob un o'r 60 Aelod o'r Senedd ar gael ar wefan y Senedd, a hynny ar ffurf taenlen Excel. Gallwch ei gweld drwy glicio ar y linc a ganlyn:

**https://senedd.wales/Umbraco/Api/Committee/DownloadCommitteeMembersCsv?committeeId=355743&cultureInfo=en-GB**

Wrth glicio ar y linc dan sylw, byddwch yn lawrlwytho taenlen Excel sy'n cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

*Enw*
*Rhanbarth*
*Etholaeth*

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

*Plaid*
*Grŵp*
*Cyfeiriad yn y Senedd / Cyfeiriad y Swyddfa*
*Rhif ffôn yn y Senedd / Rhif ffôn y Swyddfa*
*Cyfeiriadau e-bost*

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, sy'n eithrio gwybodaeth sydd eisoes ar gael yn rhesymol mewn ffyrdd eraill.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol cyn pen 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu drwy ysgrifennu at

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF